# 400 YN FWY O SIPSIWN A THEITHWYR YM MHRYDAIN YN 2011



Mae nifer y sipsiwn a theithwyr ym Mhrydain wedi dyblu dros y can mlynedd diwethaf. Dengys y ffigyrau a gyhoeddwyd gan Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol bod 18,600 o sipsiwn a theithwyr crwydrol yn byw ym Mhrydain ym mis Gorffennaf 2011, 400 yn fwy na'r amser yma y llynedd.

Yn ôl y wefan Genesreunited.co.uk, mae'r archifau'n dangos bod 6,985 o bobl y gellid eu dosbarthu fel teithwyr crwydrol yn byw ym Mhrydain yng nghyfrifiad 1911.


Nid oedd teithwyr yn cael eu hystyried fel grŵp ethnig ar wahân ar y pryd, ond y rhai a gafodd eu cyfrif oedd y bobl oedd yn byw mewn carafán neu babell ac yn gweithio fel pedleriaid a pherfformwyr.

Dechreuwyd eu cyfrif yn swyddogol yn y 1970au ac yng nghyfrifiad 2011 ychwanegwyd sipsiwn/teithwyr Gwyddelig fel grŵp ethnig lleiafrifol ar wahân.

Mae amseriad cyhoeddi'r ffigyrau'n cydredeg â chlirio Dale Farm yn Sussex. Dyma'r safle anghyfreithlon mwyaf i deithwyr crwydrol ym Mhrydain, a'r wythnos hon mae'r rhai oedd yn byw yno, mewn ymchwiliad cyhoeddus, wedi cyflwyno eu hachos i gael safle newydd yn Essex. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd â'r gair olaf.

Dywed cynrychiolydd y bydd Cyngor Basildon yn ystyried safleoedd posibl yn y flwyddyn newydd.

## Ymatebion Twitter




Cyflwynwch raddfa uwch o dreth ffordd ar garafanau sy'n cael eu defnyddio fel cartrefi. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cyfrannu rhywbeth i'r gymuned yn lle cymryd, cymryd, cymryd!
Lis, Sir Benfro

Ha! Ha! A beth sydd wedi digwydd i weddill y boblogaeth yn y can mlynedd diwethaf? Aros yn ei hunfan? 42 miliwn oedd poblogaeth Prydain yn 1911 ac mae wedi tyfu 50% ers hynny. Do, mae poblogaeth y teithwyr wedi dyblu mewn termau real ond dydyn nhw ddim wedi codi o 50%. Pam codi bwganod?
Hywel Davies, Yr Wyddgrug

Di o ddim yn synnu fi. Ma'r diffiniad cyfreithiol o deithwyr wedi ei stretsio i gynnwys unrhyw un o unrhyw grŵp ethnig neu hil sy'n symud o le i le neu sy wedi bod yn symud o le i le. Yn ôl be wela i ma hynna'n golygu bod tua 68 miliwn o deithwyr ym Mhrydain!
William Price, Llangefni

Prydain sy'n galon feddal ac Iwerddon yn gallach. Ble byddech chi'n hoffi byw os y bysach chi'n deithiwr?
Neli Gwyn, Abergynolwyn

Sut gwyddoch chi mai teithwyr ydynt hwy? Hyd y gwyddom ni mae'n bur debygol bod hanner y bobl hyn wedi cael eu gorfodi i adael eu cartrefi am na allent fforddio i gadw to uwch eu pennau. Diau eu bod wedi colli eu gwaith oherwydd hinsawdd economaidd y wlad.
Idwal Jones, Llanrhaeadr ym Mochnant

Tybed yden nhw'n cynnwys pawb sydd â chyfenw fel Boswell, Lovell, Lambrecht neu Lee? A beth am y rhai sy'n byw mewn carafán barhaol mewn maes carafanau safonol? Ond yn bwysicach fyth, beth fyddai'r ffigyrau pe bai'r mewnfudwyr anghyfreithlon yn cael eu cyfrif? 18,600 ydy nifer y mewnfudwyr anghyfreithlon ddaw i'r wlad bob wythnos, mwy na thebyg!
Sandra James, Ystrad Mynach